

mae gennych hawl i ddweud eich barn

Gwasanaeth Eiriolaeth Powys i Blant a Phobl Ifanc

Gwybodaeth i Weithwyr Proffesiynol

Rhadffôn Pobl Ifanc:

0800 0858471

01982 552450

Promoting Children's Rights

TROS GYNNAL Hawliau Plant

Charity No. 1099878 Rhif Elusen

PWY YDYM NI

Mae Gwasanaeth Eiriolaeth Powys yn rhan o Tros Gynnal, y sefydliad hawliau plant. Mae'r prosiect yn cynnig gwasanaeth eiriolaeth a chyfranogi i blant a phobl ifanc mewn gofal neu sy'n gadael gofal, phlant o fewn y system amddiffyn phlant a phlant ag anableddau, plant a phobl ifanc sydd eisiau gwneud cwyn am eu gwasanaeth oddi wrth y Bwrdd Iechyd Lleol a phlant sydd yn 11 oed neu'n hyn sydd wedi eu heithrio o'r ysgol ac sydd eisiau apelio.

SUT YDYM YN GWEITHIO

Mae'r prosiect yn gweithio yn unol â Safonau Eiriolaeth Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant (2003). Rydym yn annibynnol o'r Gwasanaeth Cymdeithasol a'r Bwrdd Iechyd lleol ac yn gweithio i bobl ifanc yn unig drwy wrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud, eu hysbysu o'u hawliau a'u cynorthwyo i ddatrys yr hyn yr hoffent ei gyflawni. Mae ein gwasanaeth yn gyfrinachol ac ni ddatgelir gwybodaeth heb ganiatâd y bobl ifanc oni bai i ni ddod yn ymwybodol o rywbeth a allai achosi niwed sylweddol i blentyn neu berson ifanc. Mewn achosion felly byddwn yn gweithio gyda hwy ac yn eu hannog i ddatgelu'r wybodaeth honno eu hunain i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

BETH A WNAWN

Mae Gwasanaeth Eiriolaeth Powys yn gweithio i sicrhau y gall plant a phobl ifanc sydd yn ddiamddiffyn neu mewn sefyllfa fregus gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ac y clywir eu lleisiau, byddwn yn cyflawni hyn drwy broses o:

EIRIOLAETH

Gallwn helpu pobl ifanc i ddatrys materion mewn sawl ffordd drwy:

- ddarparu gwybodaeth am eu hawliau
- godi materion ar eu rhan yn anffurfiol gyda phobl sy'n gwneud penderfyniadau
- cynorthwyo pobl ifanc i leisio barn mewn cyfarfodydd
- eu helpu i wneud cwynion ffurfiol/anffurfiol
- eu helpu i gael mynediad i gyngor a chynrychiolaeth cyfreithiol.

YMGYNGHORI A CHYFRANOGI

Byddwn hefyd yn gwneud gwaith ymgynghori a chyfranogi i hybu llais cyfunol pobl ifanc wrth gynllunio a datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol yn ogystal a lechyd a gwaith y prosiect. Mae gan y tîm Weithiwr Cyfranogi rhan amser i wneud y gwaith hwn.

HYFFORDDI AC YMGYNGHORI

Bydd staff y prosiect yn cynnal digwyddiadau hyfforddi ac ymgynghori gyda'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol o gwmpas hawliau plant ac eirolaeth.

DEFNYDDIO'R GWASANAETH

- Gall plant a phobl ifanc gysylltu â ni'n uniongyrchol ar ein rhif rhadffôn, drwy neges destun, neu trwy rhadbost.
- Byddwn hefyd yn derbyn cyfeiriadau a gaiff ei gwneud ar ran pobl ifanc gyda'u caniatâd.



MAE GWYBODAETH AR GYFER POBL IFANC AR GAEL O:

Gwasanaeth Eiriolaeth Powys i Blant a Phobl Ifanc
Antur Gwy
Heol y Parc
Llanfair ym Muallt
Powys LD2 3BA

Ffôn: 01982 552450
Ffacs: 01982 552453

E-bost: powys@trosgynnal.org.uk
Gwefan: www.trosgynnal.org.uk

Rhadffôn Pobl Ifanc
0800 0858471